

Asesiad Effaith Integredig

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Atebolwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol) (Cymru) 2020.

PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Atebolwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") yn sefydlu'r Cynllun Atebolwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol ("y Cynllun"), sef cynllun indemniad uniongyrchol y bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried indemnio hawliadau esgeuluster clinigol a wneir yn erbyn ymarferydd cyffredinol ac eraill sy'n gweithio mewn lleoliad ymarfer cyffredinol o dano o ganlyniad i weithred neu anweithred cyn 1 Ebrill 2019 sy'n achosi atebolwydd trofaus mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol a gwasanaethau eraill y GIG gan ymarfer meddygol. Atebolwyddau esgeuluster clinigol fydd yr 'atebolwyddau presennol' a gwmpesir gan y Cynllun yn bennaf.

Sut rydych wedi cymhwyso / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau a gynigir, yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?

Tymor hir

Roedd y Cynllun Indemniad Proffesiynol a gefnogir gan y wladwriaeth i Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer atebolwyddau ar ôl 1 Ebrill 2029 (Cynllun Atebolwyddau'r Dyfodol - FLS) i Gymru'n darparu ateb cynaliadwy hirdymor i gost sicrwydd indemniad ar gyfer deiliaid contract GMS gofal sylfaenol. Mae elfen Cynllun Atebolwyddau Presennol (ELS) yn adeiladu ar lansiad llwyddiannus yr FLS.

Atal

Byddai angen i'r indemniad a ddarperir o dan y Rheoliadau hyn gwmpasu atebolwyddau esgeuluster clinigol Ymarferwyr Cyffredinol (ac eraill sy'n gweithio mewn lleoliad ymarfer cyffredinol) yr adroddwyd arnynt, neu'r aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt, cyn 1 Ebrill 2019 mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ymarfer cyffredinol, Rhaid bod sicrwydd indemniad yn bodoli gyda Sefydliad Amddiffyn Meddygol sydd wedi gwneud cytundeb contractiol ELS â Gweinidogion Cymru ar yr adeg y digwyddodd y weithred neu'r anweithred a achosodd yr atebolwydd.

Integreiddio

Mae Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol wedi'i hystyried. Mae nodau ac amcanion y cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth yn bodloni'r nodau iach ac egnïol allweddol i wella iechyd a llesiant yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau, trwy'r gwelliant yn sefydlogrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau meddygol cyffredinol.

Mae'r ELS ynghyd â'r FLS yn cefnogi darparu ac yn integreiddio â darparu'r modelau gofal sylfaenol strategol yng Nghymru megis *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, a'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol i Gymru. Mae hyn yn adeiladu ar y broses dysgu ar y cyd sy'n rhan annatod o gynllun gofal eilaidd Cymru (*Gweithio i Wella*), sy'n anelu at leihau amllder hawliadau a gwella ansawdd gofal a diogelwch y claf.

Cydweithredu ac Ymwneud

Gofynnwyd am safbwyntiau GPC Cymru, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg (SSP-LARS), yr Undeb Amddiffyn Meddygol, Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban a'r Gymdeithas Gwarchod Meddygol am y Rheoliadau drafft ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) ar gyfer y Rheoliadau. Cafwyd trafodaethau hefyd â chydweithwyr yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn cyd-fynd mor agos â phosibl â rhai Lloegr. Mae'r safbwyntiau a'r sylwadau hyn hefyd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu cronfa o gwestiynau cyffredin i atodi'r Cynllun presennol ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

Bydd deialog ac adborth rhwng rhanddeiliaid yn parhau drwy gydol gwaith o ddarparu'r Cynllun dros y blynyddoedd nesaf.

Effaith

Bydd ehangu'r Cynllun Indemniad a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer Ymarferwyr Cyffredinol i Gymru i gynnwys yr ELS yn helpu i ddarparu sefydlogrwydd tymor hir ar gyfer Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Ymarferwyr Cyffredinol i Gymru.

Costau ac Arbedion

Mae sefydlu'r ELS yn dilyn cwblhau diwydrwydd dyladwy a negodiadau boddhaol ag MDOs sy'n cymryd rhan. Mae ysgwyddo cyfrifoldeb cyfreithiol dros atebolrwyddau Ymarferwyr Cyffredinol oddi wrth MDO yn ddarostyngedig i drosglwyddo asedau i Lywodraeth Cymru sydd wedi bod yn rhan o'r negodiadau.

Mecanwaith

Mae'r ELS yn cael ei sefydlu gan reoliadau o dan adran 30 o Ddeddf GIG Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y GIG (Indemniadau) (Cymru) 2020. Bydd Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn darparu'r ELS o dan y Rheoliadau hyn.

Casgliad

Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae ymgynghoriad byr ar gyfer rhanddeiliad ar y rheoliadau hyn wedi'i gynnal rhwng 21 Ionawr 2020 a 10 Chwefror 2020. Cafodd hwn ei gyfeirio at y rhai y mae'r Rheoliadau'n effeithio arnynt fwyaf - y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y mae ei aelodau'n cynnwys GPC Cymru, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Cyllid; Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol; Cyfarwyddwyr Meddygol Cyswllt, Ysgrifenyddion Byrddau; Cyfarwyddwyr Nyrsio) a Rheolwyr Practisau Ymarferwyr Cyffredinol. Mae safbwyntiau'r Undeb Amddiffyn Meddygol, Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban a'r Gymdeithas Gwarchod Meddygol wedi'u ceisio hefyd.

Mae safbwyntiau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r MDOs wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth gynhyrchu fersiwn derfynol y rheoliadau hyn ynghyd â chyfres o gwestiynau cyffredin / canllawiau a ddefnyddiwyd i atodi canllawiau'r Cynllun presennol ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Roedd y Cynllun Indemniad Proffesiynol a gefnogir gan y wladwriaeth i Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer atebolrwyddau ar ôl 1 Ebrill 2029 (FLS) yn darparu ateb cynaliadwy hirdymor i gost sicrwydd indemniad i ddeiliaid contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol gofal sylfaenol. Bydd yn helpu i gyflawni cefnogi'r modelau gofal sylfaenol strategol yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth a nodir yn *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, a'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol i Gymru. Mae'n galluogi deiliaid contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol i barhau i fodloni eu rhwymedigaethau statudol.

Bydd y rheoliadau hyn yn sicrhau bod cynlluniau indemniad Cymru a gefnogir gan y wladwriaeth i Ymarferwyr Cyffredinol yn cyd-fynd yn llawn â rhai Lloegr. Bydd hyn yn golygu nad yw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr ac na fydd unrhyw effaith andwyol ar recriwtio

Ymarferwyr Cyffredinol a gweithgarwch trawsffiniol neu recriwtio yn sgil gwahanol gynlluniau yn gweithredu yn y ddwy wlad. Bydd hyn yn helpu cynaliadwyedd tymor hir Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol GIG Cymru a thrwy hynny budd holl bobl Cymru.

Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

O Ebrill 2021, caiff adroddiad blynyddol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynulliad perthnasol. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â gweithrediad technegol y FLS a'r ELS ac fe gaiff ei lywio gan Ymarferwyr Cyffredinol a rhanddeiliaid allweddol eraill, sefydliadau amddiffyn meddygol, GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, sy'n gweithredu Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol a bydd yn ysgwyddo'r gwaith o ymdrin â hawliadau yn achos y Cynllun Atebolrwyddau Presennol yn unol â threfniadau ELS rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau amddiffyn meddygol sy'n cymryd rhan.

Bydd yr adroddiad blynyddol hefyd yn amlinellu'r trefniadau ELS y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau amddiffyn meddygol a'r ffordd y mae'r cynllun wedi'i weithredu ynghyd ag effaith ariannol y trefniadau ELS, yn ddarostyngedig i lynu at gytundebau cyfrinachedd.